# Cynllun Datblygu Lleol Sir Penfro 2 (2017-2033)

## Rhestr o Faterion, Materion a Chwestiynau

**Sylwadau Pwysig:**

Pwrpas yr archwiliad yw penderfynu a yw Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033 (CDLl) yn gadarn yn unol â Llawlyfr y Cynllun Datblygu, Rhifyn 3, 2020 (Y Llawlyfr).

**I fod yn gadarn, mae'n rhaid i'r Cynllun fodloni'r profion a nodir yn y Llawlyfr. Y rhain yw: (1) A yw'r cynllun yn cydweddu? (a yw'n amlwg bod y CDLl yn cyd-fynd â chynlluniau eraill?), (2) A yw'r cynllun yn briodol? (a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?), ac (3) A fydd y cynllun yn cyflawni? (a yw'n debygol o fod yn effeithiol).**

Yn ogystal, mae'n rhaid bod y CDLl diwygiedig wedi'i baratoi yn unol â gofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoleiddiol.

**Dylai cyfranogwyr ymateb yn unig i'r cwestiynau isod sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn flaenorol ynghylch y Cynllun. Nodwch yn glir yn eich datganiad(au) y cwestiwn/cwestiynau rydych yn eu hateb.**

Dylai datganiadau pellach fod yn gymesur o ran hyd â nifer y cwestiynau sy'n cael eu hateb ac ni ddylent, yn gyfan gwbl, fod yn fwy na 3,000 o eiriau fesul mater.

Dylai datganiadau ddod i law erbyn **hanner dydd ar 23 Hydref 2026**. Mae'n annhebygol y bydd cyflwyniadau hwyr yn cael eu derbyn. Gellir dychwelyd unrhyw ddatganiadau rhy hir, neu sy'n cynnwys deunydd amherthnasol neu ailadroddus.

Rwyf yn archwilio'r CDLl diwygiedig fel y'i cyflwynwyd gan y Cyngor Sir. Felly, ni fyddaf, ar hyn o bryd, yn ystyried gwerth datblygu safleoedd nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynllun.

Cyhoeddodd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) rai cwestiynau rhagarweiniol am y CDLl diwygiedig a'r gwaith o'i baratoi yn ystod haf 2022. Mae atebion manwl y Cyngor i'r cwestiynau rhagarweiniol ar y wefan archwiliad (SD13.1) ac efallai y byddant o ddiddordeb i gyfranogwyr. Er eglurder, lle mae'r cwestiynau rhagarweiniol wedi'u dyblygu yn y ddogfen hon, ni fydd yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu ymateb ychwanegol, bydd cyfeiriad at yr ateb cynharach yn ddigonol.

Os oes gennych gwestiynau mewn perthynas â'r ddogfen hon neu unrhyw agwedd ar yr archwiliad, cysylltwch â Swyddog y Rhaglen, Deborah Williamson, drwy ffonio 01437 775545 neu drwy anfon neges e-bost at programmeofficer@pembrokeshire.gov.uk

**Mater 1: Paratoi cynllun a strategaeth**

**Y Mater: A yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydymffurfio â'r gyfraith? A ellir cyfiawnhau strategaeth y Cynllun ac a yw'n debygol o fod yn effeithiol wrth sicrhau y gellir diwallu anghenion datblygu Sir Benfro mewn ffordd sy'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy?**

*(Nodwch, yn y sesiwn hon, ni fydd unrhyw ystyriaeth o safleoedd tai neu gyflogaeth unigol na sut y gallai'r ystod o bolisïau dan sylw fod yn berthnasol iddynt. Bydd safleoedd o'r fath yn cael eu hystyried yn Sesiynau Gwrandawiad 4, 5, 8 ac 9 fel y bo'n berthnasol.)*

**Cydymffurfedd gweithdrefnol**

1. A yw'r Cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r cytundeb cyflawni a'r cynllun cynnwys cymunedau a gymeradwywyd?
    a. A oedd unrhyw wyriadau o'r cytundeb cyflawni a'r cynllun cynnwys cymunedau wrth baratoi'r cynllun?
    b. A gynhaliwyd ymgynghoriad yn unol â'r cynllun cynnwys cymunedau, gan gynnwys ar y newidiadau â ffocws? A gafodd yr ymgynghoriad ei gefnogi gan ddarpariaeth o dystiolaeth briodol, gadarn a chredadwy?
2. A yw'r Cynllun wedi bod yn destun arfarniad o gynaliadwyedd/asesiad amgylcheddol strategol cadarn?
    a. A yw newidiadau diweddarach a gynigir gan y cyngor (e.e. drwy ei ddatganiad sefyllfa ar gyfer yr Ardal Cadwraeth Arbennig forol, ac mewn ymateb i'n cwestiynau) yn sbarduno'r angen am arfarniad o gynaliadwyedd diwygiedig ac os felly, beth yw'r risg y byddai'r casgliad yn wahanol yn sylweddol i'r adroddiad cyfredol?
3. A oes gan y newidiadau i'r Cynllun a gynigiwyd gan y cyngor ar ôl y broses adneuo unrhyw oblygiadau ar gyfer yr asesiad effaith ar gydraddoldeb?
4. Sut mae paratoi'r Cynllun a'i weithredu yn y dyfodol yn cefnogi'r pum ffordd o weithio a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?
5. Sut mae'r dogfennau a'r ffactorau canlynol wedi dylanwadu ar gynnwys y Cynllun? Os na fu unrhyw ddylanwad uniongyrchol, a yw'r Cynllun yn gyson â'u hamcanion allweddol?
    a. Y strategaeth dai presennol ar gyfer Sir Benfro (cyfeirir at ddrafft ym mharagraff 2.30 o SD27 – Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2023)
    b. Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru
    c. Datganiad Ardal Morol (os yn berthnasol)
    d. Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru
    e. 'Mwy nag Ailgylchu', strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwastraff

6. A yw'r Cynllun yn gyson â Chymru'r Dyfodol: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?
7. A yw'r Cynllun yn gydnaws â chynlluniau awdurdodau cynllunio lleol cyfagos?
    a. A yw gwaith paratoi'r Cynllun wedi'i lywio gan gydweithio a chydlafurio?
8. A fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn polisi cenedlaethol neu amgylchiadau lleol ers yr ymgynghoriad ar newidiadau â ffocws?
    a. Beth yw goblygiadau unrhyw newidiadau i'r Cynllun?

**Strategaeth twf a gofodol**

9. A yw'r weledigaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol? A yw'n unigryw i amgylchiadau lleol?
10. Sut mae'r weledigaeth a'r amcanion yn gysylltiedig â Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy ac amcanion llesiant yr awdurdod lleol?
    a. A ddylai amcanion y Cynllun gyfeirio at Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro?
11. O ystyried yr amser sy'n weddill, a yw cyfnod y Cynllun 2017–2033 yn briodol?
12. A yw strategaeth ofodol y Cynllun yn cynrychioli dull priodol ar gyfer cyflawni, rheoli a dosbarthu twf dros gyfnod y Cynllun?
    a. A yw'r strategaeth ofodol yn cyfleu'n glir ble bydd datblygiadau yn y dyfodol yn cael eu lleoli?
    b. A yw'r dystiolaeth yn cefnogi strategaeth drefol/gwledig sy'n rhannu 60/40 yn hytrach na 70/30? A yw'r cyngor wedi manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd safleoedd mewn ardaloedd trefol?
    c. Sut mae'r strategaeth ofodol wedi cymhwyso'r dull dilyniannol o weithredu i ryddhau tir a nodir mewn polisi cenedlaethol? A yw'n gwneud y defnydd mwyaf o dir a ddatblygwyd o'r blaen?
    d. A fydd y strategaeth ofodol yn cynorthwyo Ardaloedd Twf Rhanbarthol a'r rhanbarth ehangach?
    e. Sut mae'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas wedi cael ei ystyried trwy gamau paratoi'r Cynllun? A yw'r dull yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth gredadwy ac a yw'n cyd-fynd â pholisi cenedlaethol?
13. Beth yw pwrpas y polisïau strategol? A ydynt yn ddefnyddiol ac yn gallu cael eu defnyddio o ran rheoli datblygu?
    a. A yw polisi SP 1 yn gyfiawn? A yw'n dyblygu darpariaethau mewn polisïau eraill?

14. A yw hierarchaeth aneddiadau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac a fydd yn llywio datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy yn Sir Benfro?
    a. A yw'r dystiolaeth wedi'i chymhwyso'n gyson?
    b. Beth yw'r rhesymeg dros y rhaniad twf rhwng aneddiadau a gwahanol haenau hierarchaeth?
    c. A yw'n glir pa fathau a faint o ddatblygiad, heblaw am dai, fydd yn briodol ym mhob haen o'r hierarchaeth?
    d. Sut fydd datblygiad ar hap yn cael ei reoli ym mhob haen o'r hierarchaeth?
15. A yw ffiniau'r aneddiadau wedi'u llunio'n briodol wrth ystyried y twf arfaethedig?
    a. Pam nad yw rhai ardaloedd cyflogaeth (fel Llwynhelyg) wedi'u cynnwys o fewn ffin anheddiad?
    b. Sut mae'r cyngor wedi delio â safleoedd addas sy'n disgyn o dan y trothwy dyrannu?
16. A yw polisïau SP 8, SP 9 ac SP 10 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli datblygiad?
17. A yw polisi SP 8 yn darparu dimensiwn gofodol ar gyfer datblygiad o fewn yr aneddiadau trefol?
18. Polisi SP 9:
    a. Beth a olygir gan raddfa a natur datblygiad 'briodol'?
    b. Pa fathau o ddatblygiadau â chysylltiad da gerllaw ffin anheddiad fyddai'n cael eu cefnogi, a sut/pam y byddent yn eithriadau?
    c. Sut fyddai 'anghenion tai'r gymuned' yn cael eu mesur?
    d. A yw natur a graddfa'r datblygiadau y gellir eu cefnogi ger ffiniau aneddiadau yn glir? Pam y byddent yn 'eithriadau' pe baent yn cael eu cefnogi gan bolisïau eraill?
19. Polisi SP10
    a. Beth yw pwrpas pentrefi clwstwr? A yw'r dystiolaeth yn eu cyfiawnhau?
    b. A yw'r polisi'n gwahaniaethu'n glir rhwng pentrefi clwstwr a phentrefi lleol? A yw'n glir pa fathau o ddatblygiadau a graddfa'r datblygiadau hynny fyddai'n cael eu cefnogi yn y pentrefi neu ger y pentrefi hynny?
20. A yw polisi SP 11 yn glir ynghylch y mathau o ddatblygiad a fyddai'n cael eu cefnogi mewn lleoliadau cefn gwlad?
    a. A yw'n gyson â pholisi cenedlaethol?
    b. A yw'n gyson â pholisïau eraill y Cynllun?

21. A yw'r broses asesu safleoedd yn glir ac yn dryloyw?

    a. A yw wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?

    b. A yw'r dyraniadau safleoedd yn seiliedig ar fethodoleg asesu gadarn sy'n ystyried yr holl gyfyngiadau posibl?

    c. A ystyriwyd yr holl ofynion seilwaith i sicrhau y gellir cyflenwi safleoedd a neilltuwyd yn brydlon?

22. Sut mae dyraniadau a gariwyd drosodd wedi cael eu hystyried, o ystyried cyngor yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Tabl 18)?

23. Polisi SP 19

    a. A yw'r polisi wedi'i fynegi'n glir, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, ac yn gyson â pholisi a chanllawiau cenedlaethol?

    b. Beth yw goblygiadau strategaeth twf y Cynllun, gan gynnwys maint a lleoliad datblygiadau, ar y Gymraeg?

    c. Sut mae safleoedd a neilltuwyd wedi cael eu hasesu o ran eu heffaith ar y Gymraeg? Pa fesurau lliniaru, os o gwbl, sydd eu hangen?

    d. Sut fydd datblygiad yn cael ei reoli mewn ardaloedd sensitif i'r Gymraeg?

    e. A yw'r Cynllun yn glir ynghylch pryd y byddai angen asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, gan gynnwys yr hyn fyddai yn yr asesiad?

    f. Gan gyfeirio at dablau cyflenwi safleoedd y cyngor (ED 12), a ddylai dyraniadau fod yn destun asesiad pellach o'r effaith ar y Gymraeg?

    g. A yw gofynion asesiad o'r effaith ar y Gymraeg wedi'u mynegi'n glir ac yn gyson â pholisi cenedlaethol?

**Mater 2: Angen o ran tai, cyflenwad tai a thai fforddiadwy**

**Y Mater: A ellir cyfiawnhau strategaeth dai'r Cynllun o ystyried y lefelau o angen a nodwyd, a oes tystiolaeth gadarn a chredadwy yn sail iddi, ac a yw'n gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol?**

**Tai (angen a chyflenwad)**

1. A yw'r gofyniad tai ym mholisi SP 2 yn briodol ac a ellir ei gyfiawnhau?

    a. Pam y dewiswyd y tair senario tai fel sail ar gyfer y senario twf a ffefrir? A ystyriwyd cyfuniadau eraill?

b. A ddylid addasu'r gofyniad i ystyried amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol Cymru yn seiliedig ar 2022?

c. A ddylid cynyddu'r gofyniad er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflenwi tai fforddiadwy i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (SD27)?

d. Beth yw goblygiadau'r 1,000 o swyddi ychwanegol posibl a nodwyd yng nghais Porthladd Rhydd Celtaidd i'r gofyniad tai?

2. A yw ffigur y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai ym mholisi SP 2 yn briodol ac a ellir ei gyfiawnhau?

   a. Beth yw cyfansoddiad diweddaraf y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai?

   b. Sut mae dyraniadau a gariwyd drosodd wedi cael eu hystyried, o ystyried cyngor yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Tabl 18)?

   c. A yw trywydd y llwybr tai yn realistig, yn seiliedig ar gyfraddau cyflenwi sy'n gredadwy ac yn gadarn?

   d. A yw'r arenillion amcangyfrifedig o safleoedd ymrwymedig a safleoedd ar hap, yn enwedig safleoedd ar hap bach mewn pentrefi lleol a chefn gwlad, yn realistig ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn? A oes lwfans peidio â chyflenwi wedi'i ddiffinio a'i gymhwyso'n briodol?

   e. Sut mae'r lwfans hyblygrwydd wedi cael ei benderfynu? A yw wedi'i gyfiawnhau ar sail amgylchiadau lleol?

3. A fydd y Cynllun yn cyflenwi'r gofyniad tai?

   a. A yw'r gyfradd gyflenwi sydd wedi'i chynnwys yn nhrywydd y llwybr tai yn realistig, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy ac yn gyson â gofynion y Llawlyfr?

   b. A yw'r dyraniadau safle ar gael ac a ellir eu cyflenwi o fewn yr amserlenni disgwyliedig? A yw'r dyraniadau'n wedi'u pennu ar sail methodoleg asesu safleoedd gadarn a chynhwysfawr, a ydynt yn rhydd rhag cyfyngiadau datblygu sylweddol ac a ellir dangos eu bod yn hyfyw yn economaidd?

   c. A yw cyfanswm ffigurau dyrannu safleoedd yn ystyried gofynion y Cynllun megis mannau hamdden ac amwynder, systemau draenio cynaliadwy, seilwaith gwyrdd a chymhareb plannu coed, parcio cerbydau a dylunio a chreu lleoedd cynaliadwy?

   d. A yw'r strategaeth a'r cyflenwad tai yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid?

   e. A ddylid cynnwys manylion y dyraniadau tai yn y Cynllun?

4. A yw darpariaethau polisi GN 13 wedi'u mynegi'n glir ac yn gyson â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol?

   a. A oes brawddeg ar goll cyn meini prawf 1-3 yn egluro ble bydd tai yng nghefn gwlad yn cael eu cefnogi?

   b. A yw'r lefelau dwysedd yn briodol ac a ellir eu cyfiawnhau?

**Tai fforddiadwy**

5. A yw'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (SD27) yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?
    a. Pa raddfa angen o ran tai sydd wedi'i nodi?
    b. Pa gymysgedd o ddeiliadaethau a mathau o anheddau sydd eu hangen?
    c. A yw targed tai fforddiadwy'r Cynllun yn briodol o ystyried y dystiolaeth o angen o ran tai lleol?
    d. Pa fecanweithiau eraill sydd ar gael i gyfrannu at anghenion? Faint allent ei gyfrannu'n realistig?
6. A yw'r Adroddiad Hyfywedd Ariannol (SD28, ED10a ac ED10c) yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?
    a. A yw'r rhagdybiaethau cydranau costau, gwerth, rhwymedigaethau cynllunio a gofynion cysylltiedig eraill yn realistig ac yn gyfiawn?
7. A yw'r targed tai fforddiadwy ym mholisi SP 3 yn realistig, yn gyfredol ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn?
8. A yw'r targedau tai fforddiadwy ar gyfer eu cyflenwi ym mholisi GN 20, gan gynnwys trothwyon cyfraniadau, yn realistig ac a ellir eu cyfiawnhau?
    a. A yw'r polisi'n glir ynghylch ble mae gwahanol drothwyon a thargedau'n berthnasol?
    b. Pa dystiolaeth sy'n cefnogi eithrio cynlluniau addasu o gyfraniadau (paragraff 5.117)? A ddylid mynegi hyn yn y polisi?
    c. Sut fydd unedau rhannol a symiau cymudedig oddi ar y safle yn cael eu cyfrifo a'u sicrhau? A yw'r polisi'n glir ar y darpariaethau hyn?
    d. A yw'r polisi'n dibynnu ar ganllawiau cynllunio atodol i weithredu ei ddarpariaethau? A yw hyn yn briodol?
9. A yw dosbarthiad gofodol tai fforddiadwy yn adlewyrchu anghenion lleol?
10. A yw'r Cynllun yn darparu ar gyfer safleoedd tai sy'n rhoi blaenoriaeth i dai fforddiadwy (paragraff 4.2.33 Polisi Cynllunio Cymru)?
11. A yw darpariaethau polisi GN 21 wedi'u mynegi'n glir ac yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol?
    a. A yw dwy frawddeg gyntaf paragraff 5.121 yn gyson â nodau'r polisi?
    b. A yw'r trydydd maen prawf yn angenrheidiol, o ystyried strategaeth ofodol a hierarchaeth aneddiadau'r Cynllun?

**Mater 3: Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr**

**Y Mater: A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer diogelu adnoddau dŵr a rheoli datblygiadau sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i faethynnau?**

1. A yw strategaeth ofodol y Cynllun a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cyd-fynd â datganiad polisi cynllunio interim Llywodraeth Cymru ar ddatblygiad mewn dalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (Awst 2025)?
2. A yw tystiolaeth y Cynllun yn dangos bod dull integredig yn ymarferol yn ystod cyfnod y Cynllun?
3. A yw'r cynllun lleihau maethynnau dalgylch sy'n dod i'r amlwg yn darparu digon o fanylion a sicrwydd y gellir cyflawni datblygiad yn unol â'r amserlenni disgwyliedig?
4. Hyd nes y bydd cynllun lleihau maethynnau dalgylch wedi'i gwblhau, pa ddull a mesurau a fydd yn cael eu defnyddio i sicrhau y gall datblygiad fynd rhagddo yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt?
5. A yw tystiolaeth y Cynllun yn nodi cyfraniadau angenrheidiol gan ddatblygwyr a allai fod eu hangen i wella ac adfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig? A yw effeithiau costau tebygol ar hyfywedd datblygu wedi cael eu hasesu?
6. A yw'r newidiadau arfaethedig i bolisi GN 47, gan gynnwys creu polisi strategol newydd (SP12A), yn darparu digon o fanylion i ddod i'r casgliad bod fframwaith polisi yn bodoli i atal effeithiau andwyol ar gyfanrwydd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yr effeithir arnynt?
7. A oes angen gwelliannau pellach i'r Cynllun o ganlyniad i'r dystiolaeth ddiweddaraf?
8. A yw dibynnu ar gynhyrchu canllawiau cynllunio atodol i ddarparu rhagor o fanylion am fesurau, gweithgareddau lliniaru, cyfraniadau a chyflawniadau datblygwyr, yn rhesymol fel mesur i ddod i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safle?
9. A yw fframwaith monitro'r Cynllun yn darparu'r sicrwydd angenrheidiol i sicrhau bod y mesurau uchod yn cael eu gweithredu?

**Mater 4: Polisïau tai eraill a llety Sipsiwn a Theithwyr**

**Y Mater: A yw'r Cynllun yn nodi fframwaith priodol ar gyfer darparu llety i Sipsiwn a Theithwyr, a mathau penodol o dai gan gynnwys rheolaethau cysylltiedig, sy'n gyson â pholisïau cynllunio cenedlaethol?**

**Llety arbenigol a llety â chymorth**

1. A yw Polisi GN 15 yn ddigon clir? A yw'r polisi a'r testun ategol yn gyson â thystiolaeth gyfoes, ac yn seiliedig arni?
    a. Sut fyddai anghenion y ‘gymuned leol’ yn cael eu pennu o fewn y paragraff cyntaf? A yw hyn yn sail resymol i asesu anghenion?
2. A yw maen prawf B yn effeithiol?
    a. Sut fyddai ymgeisydd yn dangos ‘cymysgedd priodol’ o fathau o dai, deiliadaethau, a nifer yr ystafelloedd gwely?
    b. O ystyried tystiolaeth a darpariaethau polisïau eraill (GN20, GN21, a GN22) beth yw disgwyliadau'r maen prawf hwn a sut y byddent yn cael eu gweithredu?
3. A yw maen prawf C yn effeithiol?
    a. Sut fyddai ymgeisydd yn gallu dangos ‘cydbwysedd priodol’ o dai? Sut fyddai hyn yn cael ei gymhwyso yn ôl y defnydd a/neu'r lleoliad arfaethedig?
    b. A fyddai’n darparu sail glir ar gyfer gwerthuso ceisiadau i newid rhwng C3 a defnyddiau preswyl eraill fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 5.95?
4. A yw maen prawf D yn effeithiol?
    a. A yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chyfoes?
    b. O ran y cyflenwad tai, faint o anheddau y gellid eu hadeiladu i safon Cartrefi Gydol Oes?
    c. Pa dybiaethau o ran costau datblygu sydd wedi'u gwneud yn yr Adroddiad Hyfywedd Ariannol (SD28 ac ED10a) i adlewyrchu'r gofyniad i sicrhau bod 20% o unedau preifat yn bodloni safonau Cartrefi Gydol Oes neu safonau cyfwerth?
5. A yw maen prawf E yn effeithiol?
    a. Beth yw'r cyfiawnhad dros ei gwneud yn ofynnol i bob uned fodloni 'safonau gofod a nodwyd'?
    b. A yw'r polisi'n glir ynghylch pa safonau sy'n berthnasol i fathau penodol o dai?
    c. A oes angen dyblygu darpariaethau Rheoliadau Adeiladu o fewn y polisi hwn?
6. A yw geiriad y polisi yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid?
7. A yw Polisi GN22 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer asesu cynigion llety arbenigol a llety â chymorth?
    a. Sut mae'r asesiadau o anghenion mewn perthynas â thai a llety (SD24, SD25) ac Asesiad o Farchnad Dai Leol 2023 (SD27) wedi llywio'r dull polisi?
    b. A yw maen prawf cyntaf Polisi GN 22 (FC5.GN22.03) yn ddigon ymatebol i anghenion sy’n ehangach nag anghenion lleol? Pam mae angen cael cefnogaeth y Tîm Comisiynu Strategol?
    c. Beth yw adeilad presennol 'priodol'?
    d. Beth yw'r cyfiawnhad dros ganiatáu eithriadau ar gyfer cartrefi plant (FC5.GN22.02)? A yw'r paragraff newydd ar ôl 5.128 yn cyd-fynd â geiriad y polisi?

    e. A yw'r frawddeg newydd sy'n cyfyngu ar gynigion tai'r farchnad agored y tu allan i ffiniau aneddiadau yn gyfiawn (FC5.GN22.03)?

8. Safleoedd wedi'u dyrannu yn ôl Polisi GN 23:

   SSA/089/01 I'r de-orllewin o Park House, Dinbych-y-pysgod

   SSA/089/LDP2/01 I'r dwyrain o Park House, Dinbych-y-pysgod

   SSA/135/LDP2/01 I'r gogledd o ffordd osgoi Ffordd Bulford, Tiers Cross

   SSA/088/LDP2/01 Redstone, Arberth

    a. A yw'r dyraniadau wedi dilyn proses asesu safleoedd gadarn, gan gynnwys galw am safleoedd?
    b. A ellid lliniaru unrhyw gyfyngiadau neu effeithiau niweidiol yn foddhaol ar bob safle?
    c. I ba raddau y byddai'r dyraniadau'n cyfrannu at fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd?
    d. Beth yw'r mecanweithiau a'r amserlenni ar gyfer cyflawni pob dyraniad?
    e. A ddylid cynnwys manylion y dyraniadau (ED12i) yn y Cynllun?

**Llety Sipsiwn a Theithwyr**

9. A yw asesiad o anghenion llety sipsiwn a theithwyr 2019 a gymeradwywyd yn darparu sail gadarn i lywio strategaeth y cynllun datblygu lleol?
    a. A ddylai'r cyngor ddyrannu safle tramwy?
    b. Beth yw statws yr asesiad o anghenion llety sipsiwn a theithwyr diweddaraf?
10. A yw'r cynnydd net arfaethedig mewn lleiniau o'r tri safle a ddyrannwyd o dan Bolisi GN 24 yn adlewyrchu'r dystiolaeth fwyaf cyfredol o'r angen a ragwelir? A yw'r testun ategol i Bolisi SP 4 yn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf hon?
11. Mae'r papur cefndir mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys asesiadau o safleoedd (SD51), yn nodi'r broses ar gyfer nodi ac asesu safleoedd yn Noc Penfro a Phenfro a chyffiniau’r trefi hynny.
    a. Pam roedd yr asesiad wedi'i gyfyngu i Ddoc Penfro a Phenfro?
    b. A ystyriwyd lleoliadau a safleoedd eraill?
12. Safleoedd a dyrannwyd:

    GT/003/LDP2/01 Tir i'r gorllewin o safle Sipsiwn a Theithwyr Comin Kingsmoor, Begeli

    GT/040/LDP2/01 Tir i'r dwyrain o safle Sipsiwn a Theithwyr Llwynhelyg

    GT/095/LDP2/02 Gerllaw maes chwarae Cil-maen

    a. A yw'r dyraniadau wedi dilyn proses asesu safleoedd gadarn, gan gynnwys galw am safleoedd?

b. A yw'r dewis o safleoedd, gan gynnwys eu lleoliadau a'u perthynas â defnyddiau cyfagos, yn cyd-fynd â thystiolaeth o asesiad o anghenion llety sipsiwn a theithwyr 2019, y papur cefndir (paragraffau 6.5 a 7.1), a chylchlythyr 005/2018?

c. A yw dyraniadau'r awdurdod lleol o ran lleoliad, maint, a chapasiti posibl y safle, yn cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer dylunio safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (Gorffennaf 2026)?

d. A ellid lliniaru unrhyw gyfyngiadau neu effeithiau niweidiol yn foddhaol ar bob safle?

e. A yw'n briodol bod tir i'r gorllewin o Kingsmoor ar dir comin? Beth yw ei oblygiadau ar gyfer cyflenwi safle?

f. Beth yw'r mecanweithiau a'r amserlenni ar gyfer cyflawni pob dyraniad?

g. A ddylid cynnwys manylion y dyraniadau (ED12c) yn y Cynllun?

13. A yw Polisi GN 25 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer asesu cynigion?

    a. A yw'n gyson â pholisi cenedlaethol?

    b. A yw meini prawf 1 a 2 o Bolisi GN 25 yn realistig gyda'i gilydd?

    c. A yw maen prawf 1 yn gyson â'r dull ar gyfer nodi safleoedd yng Nghylchlythyr 005/2018?

**Mater 5: Yr Economi**

**Y Mater: A yw'r strategaeth cyflogaeth a’r strategaeth economaidd yn cael eu hategu gan dystiolaeth gadarn ac a yw'r Cynllun yn darparu fframwaith polisi priodol a realistig mewn ymateb i'r materion a'r dystiolaeth?**

**Cyflogaeth**

1. Sut mae'r ffigur o 1,970 o swyddi sy’n nodi twf wedi’i addasu dros gyfnod y cynllun wedi'i nodi ym Mholisi SP 5 (Cynllunio Gofodol 5)? A yw'n seiliedig ar dystiolaeth a rhagdybiaethau cyfredol?
2. Pa dybiaethau sydd wedi llywio'r rhagolwg economaidd? A yw hyn yn ystyried trigolion sy'n teithio i'r gwaith o'r tu allan i'r sir?
3. Pa fethodoleg sydd wedi'i defnyddio i drosi'r targed ar gyfer swyddi yn ofynion arwynebedd llawr a thir cyflogaeth? A yw hyn yn cyd-fynd â pholisïau a chanllawiau cenedlaethol?
4. A yw'r dystiolaeth sylfaenol o ddatblygiad economaidd yn dilyn polisïau a chanllawiau cenedlaethol ar Adolygiadau o Dir Cyflogaeth?
5. Polisi SP 13

    a. Beth yw’r sail dystiolaeth ar gyfer rhannau cydrannol Polisi SP 13?

    b. Beth yw'r cyfiawnhad dros eithrio cynigion ynni sy'n gysylltiedig â gwynt ac a yw hyn yn gyffredinol yn cydymffurfio â Pholisi 32 Cymru'r Dyfodol?

c. Beth yw pwrpas paragraff 3 o'r polisi? A yw'n glir, â ffocws, ac yn effeithiol?

d. A yw'n ddigon clir i ba ardal y byddai'r polisi'n berthnasol ar y map cynigion? A yw maint yr ardal hon yn gyson â thystiolaeth?

6. Dyraniadau safleoedd cyflogaeth – Polisïau SP 14, GN 9 (Nodyn Cyfarwyddyd 9) a GN 10

a. A yw'r dyraniadau wedi dilyn proses asesu safleoedd gadarn, gan gynnwys galw am safleoedd?

b. Beth yw'r sail dros gategoreiddio safleoedd i bolisïau SP 14 a GN 9?

c. A yw'r ddau bolisi yn gwahaniaethu'n glir rhwng safleoedd a ddyrannwyd a safleoedd ymrwymedig?

d. A yw'r hectarau a ddyrannwyd ym mholisïau SP 14, GN 9, a GN 10 yn ystyried cyfyngiadau safle a nodwyd yn y dystiolaeth?

e. A yw'r ffigurau'n cynrychioli cyfanswm y tir sydd ar gael neu'r defnydd disgwyliedig yn ystod cyfnod y cynllun?

f. A oes amcangyfrif o'r swyddi y disgwylir iddynt gael eu darparu ar bob safle a'u cyfraniad at y targed cyffredinol?

g. A yw'r cyflenwad yn darparu ystod briodol o fathau o safleoedd, meintiau a lleoliadau i ddiwallu anghenion?

h. A yw dosbarthiad safleoedd cyflogaeth yn ystyried darpariaethau Cymru'r Dyfodol?

i. A yw'n cefnogi'r strategaeth/dosbarthiad gofodol trefol/gwledig 60/40 a fwriadwyd?

j. A yw'r polisïau'n glir ynghylch y disgwyliadau ar gyfer defnyddiau derbyniol ar bob safle?

k. Polisi SP 14 - Beth mae 'defnyddiau eraill sy'n gysylltiedig yn agos â'r prif ddefnydd cyflogaeth' yn ei olygu o ran graddfa a math/defnydd?

l. Polisi GN 9 – A yw'r paragraff olaf yn glir ynghylch amgylchiadau pan ellir cefnogi defnyddiau eraill? A oes gwrthdaro rhwng y geiriad presennol a dyraniad safleoedd ar gyfer dosbarthiadau defnydd B i ddiwallu anghenion a nodwyd?

m. Sut a phryd y disgwylir gwneud cynigion am y dyraniadau ym Mholisïau SP 14, GN 9 a GN 10? Beth yw'r cyfiawnhad dros y rhagdybiaethau hyn?

n. A ddylid cynnwys manylion y dyraniadau cyflogaeth (ED12b, ED12h ac ED12j) yn y Cynllun?

7. Polisi GN 8

a. A yw'r polisi'n gyson â Pholisi SP 11, polisïau a chanllawiau cenedlaethol?

b. Maen prawf 1 – a yw ‘uwchlaw’ ac ‘islaw’ yn ddiangen? A ddylai Polisi GN 7 fod yn GN 9?

c. Sut fyddai meini prawf 3 a 4 yn gweithio'n ymarferol?

d. Maen prawf 4 – beth mae ‘ardal leol’ yn ei olygu?

e. Maen prawf 6 – a ddylai gyfeirio at adeiladau ‘traddodiadol’ yn lle adeiladau ‘amaethyddol’?

f. A ddylai'r frawddeg olaf gyfeirio at faen prawf 2B a/neu a oes ei hangen?

g. Sut fyddai paragraff 5.65 yn gweithio?

8. Diogelu safleoedd cyflogaeth (Polisïau SP 15 a GN 11)

   a. A yw'r ddau bolisi yn ddigon hyblyg ac yn gyson â pholisi a chanllawiau cenedlaethol?

   b. Sut a pham y mae'r safleoedd a restrir ym Mholisi SP 15 wedi cael eu dewis? A yw'r dystiolaeth yn cefnogi tebygolrwydd o ddefnydd cyflogaeth parhaus?

   c. Sut fyddai meini prawf ‘A’ a ‘B’ ym Mholisi SP 15 yn gweithio'n ymarferol? Beth yw 'amgylchiadau eithriadol'?

   d. A yw'r meini prawf ym Mholisi GN 11 yn glir, yn effeithiol, ac yn gymesur?

   e. A ddylai'r ail bwynt bwled ym mharagraff 5.80 (o dan Bolisi GN 11) nodi cyfnod gofynnol dangosol ar gyfer y dystiolaeth dan sylw?

**Manwerthu, hamdden, cymuned, a thwristiaeth**

<u>Manwerthu</u>

9. A yw Polisi SP 16 yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac yn gyson â pholisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol mewn perthynas ag anghenion manwerthu?

10. Sut mae canfyddiadau Astudiaeth Manwerthu Ranbarthol De-orllewin Cymru wedi llywio strategaeth fanwerthu'r cyngor?

    a. A ddylai'r Cynllun gynnwys dyraniadau ar gyfer arwynebedd llawr ar gyfer nwyddau cyfleustra a/neu nwyddau cymharol?

    b. A yw’r hierarchaeth manwerthu yn seiliedig ar dystiolaeth gredadwy?

11. A yw ffiniau canol trefi, ffryntiadau manwerthu cynradd ac eilaidd yn cael eu cyfiawnhau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn? A ydyn nhw'n ymateb yn briodol i faterion ac amcanion y Cynllun?

12. Polisi GN 31

    a. A yw'r dull o ran polisi mewn perthynas â ffryntiadau cynradd yn annog ac yn cefnogi bywiogrwydd a hyfywedd pob canolfan? A yw'n gyson â pholisïau a chanllawiau cenedlaethol?

    b. A yw maen prawf A yn gydnaws â pharagraff 5.161? A ddylid cynnwys y cyfiawnhad rhesymegol dros newidiadau i ddefnydd y tu allan i ffryntiadau cynradd o fewn canol trefi yn y polisi?

    c. A yw'r polisi'n glir ac yn gyson ynghylch ble y cefnogir defnyddiau preswyl o fewn canol trefi a chanolfannau manwerthu lleol? Pa feini prawf a ddefnyddir i ystyried cynigion ar lawr daear ffryntiadau eilaidd?

    d. Sut mae 'crynodiad annerbyniol o leoedd cludfwyd brys' yn cael ei fesur? Beth yw'r dystiolaeth dros y dull polisi hwn?

e. Maen prawf B - A yw'r polisi'n darparu amddiffyniad digonol ar gyfer defnyddiau manwerthu a masnachol mewn canolfannau manwerthu lleol?
f. A ddylid cynnwys y cyfeiriad at farchnata ym mharagraff 5.163 yn y polisi er mwyn eglurder? A yw'n glir pa ddefnyddiau presennol ac arfaethedig y mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â nhw?

13. Polisi GN 32
  a. A yw'r dull polisi, gan gynnwys y manylion ym mharagraff 5.171, yn gyson â dull canol trefi yn gyntaf polisïau cenedlaethol?
  b. A yw'n gydlynol ac yn gyson â Pholisi GN 57?
  c. Sut mae paragraff 5.172 yn berthnasol i gynnwys Polisi GN 32? A ddylid ei ddiwygio/ei symud?
14. A yw strategaeth fanwerthu'r cyngor yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol?

<u>Cyfleusterau cymunedol a mannau agored</u>

15. Polisi GN 29
  a. Maen prawf A – sut mae 'â chysylltiad da â'r gymuned' wedi'i ddiffinio? A fyddai hyn yn berthnasol i leoliadau cefn gwlad, ac a fyddai hyn yn gyson â Pholisi SP 11?
  b. A yw maen prawf B yn glir ac yn fanwl gywir ynghylch ei amcanion a sut y byddai'n cael ei weithredu?
  c. Maen prawf C – a fyddai angen bodloni'r holl feini prawf os newidir y defnydd o un cyfleuster cymunedol i un arall? A yw hynny'n effeithiol ac yn gymesur?
  d. Maen prawf C1 – a yw'n glir sut y gall cynigion ddangos nad ydynt yn hyfyw mwyach? Sut a pham mae hyn yn wahanol i'r darpariaethau o dan feini prawf 2 a 3?
  e. Maen prawf C2 – Pam y dylai eiddo fod yn wag cyn cael ei farchnata? A yw hyn yn rhesymol?
  f. Maen prawf C3 – sut fyddai cynigion yn dangos eu bod yn fwy na'r gofynion? A yw hyn yr un peth, neu'n wahanol, i gael darpariaeth amgen ddigonol?
16. Polisi GN 30
  a. Sut mae'r cynllun wedi nodi'r angen am gyfleusterau cymunedol newydd? Sut mae'r dystiolaeth hon wedi llywio dewisiadau o ran dyrannu safleoedd?
  b. A ddylid cynnwys manylion y dyraniadau cyfleusterau cymunedol yn y cynllun?
  c. Sut a phryd y disgwylir gwneud cynigion am y dyraniadau? Beth yw'r cyfiawnhad dros y rhagdybiaethau hyn?
17. Polisi GN 51
  a. A yw'r polisi'n glir o ran ei faint a'i gwmpas? A yw hyn yn ymestyn y tu hwnt i safleoedd sydd wedi'u cynnwys ar y map cynigion?
  b. Maen prawf A – a ddylai diffygion o ran gofod hamdden awyr agored fod yn ffactor i'w ystyried hefyd?

    c. Beth yw dull y Cynllun ar gyfer mannau agored newydd, gan gynnwys safonau darpariaeth? A fyddai disgwyl i ddatblygiad newydd gyfrannu at gyfleusterau mannau agored?
    d. Paragraff 5.291 – a fyddai meysydd chwarae wedi'u cynnwys o dan Bolisi GN 29 neu GN 51?

18. Polisi GN 52
    a. A yw cwmpas y polisi hwn wedi'i gyfiawnhau? Ar ba dystiolaeth y mae'n seiliedig? A yw hyn yn cynnwys unrhyw safonau o ran darpariaeth?
    b. A yw'r polisi'n glir o ran ei ofynion? Beth mae 'effeithio'n niweidiol' yn ei olygu yn y polisi?
    c. A yw maint y man agored a ddynodwyd yn Melin Slothy (Cyf OSP/095/23 a Newid â Ffocws FC5.GN52.Penfro.01) wedi'i gyfiawnhau?
    d. A yw'r man agored amwynder gerllaw dyraniad tai HSG/029/00014 (gyferbyn â Woodholm Close, Crundale) wedi'i gyfiawnhau?
19. A yw Polisi GN 53 yn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer darparu mannau tyfu cymunedol?
    a. Maen prawf 1 – sut fyddai cynnig 'â chysylltiad da'?
    b. Maen prawf 2 – sut fyddai 'galw lleol' yn cael ei fesur?

<u>Economi ymwelwyr</u>

20. A yw Polisi GN 54 yn darparu mecanwaith clir a phriodol ar gyfer rheoli atyniadau ymwelwyr a chyfleusterau hamdden newydd yn y sir?
    a. A ddylai'r cyfiawnhad rhesymegol egluro cynigion ar raddfa fach, graddfa ganolig, a graddfa fawr? A oes unrhyw wahaniaethau rhwng cynigion ar raddfa ganolig a graddfa fawr o fewn y polisi?
    b. A yw paragraff 5.302 yn cyflwyno meini prawf newydd (adeiladu ar natur unigryw) a ddylai fod yn y polisi?
21. A yw polisïau GN 55, GN 56, GN 57 a GN 58 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli llety ymwelwyr yn y sir?
22. Polisi GN 56
    a. A yw Astudiaeth o Gapasiti Tirwedd ar gyfer Carafanau (SD16.1 ac SD16.2) yn gadarn ac yn seiliedig ar dystiolaeth gredadwy? A yw'n darparu dull clir ac effeithiol o benderfynu ar gynigion tymhorol a statig ym Mholisi GN 56?
    b. A yw'r esboniad o gapasiti tirwedd ym mharagraff 5.311 yn gyson â thystiolaeth yn yr Astudiaeth o Gapasiti Tirwedd ar gyfer Carafanau?
    c. A yw'r trothwy 400 m ym mharagraff 5.3.19 wedi'i gyfiawnhau ac yn effeithiol? A yw'n berthnasol i estyniadau i safle yn unig?
    d. A yw Polisi GN 56 a'r cyfiawnhad rhesymegol yn glir ynghylch sut y bydd effeithiau cronnus yn cael eu hasesu?
    e. A ddylai maen prawf B gyfeirio at leoliadau hygyrch yn unol â maen prawf A?

f. Sut mae 'gor-grynhoi' ac 'arwynebedd' yn cael eu diffinio ym maen prawf 2?

g. Paragraff 5.312 – a yw'r esboniad hwn yn peri risg o ddirprwyo meini prawf ar gyfer penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i ganllawiau cynllunio atodol? A ddylid diwygio'r polisi i fynd i'r afael â'r meini prawf yn 5.312?

23. Polisi GN 57

   a. Beth mae 'safonau amgylcheddol ymarferol gorau' yn ei olygu ym maen prawf 2? A yw'r gofynion wedi'u cyfiawnhau?

   b. A yw paragraff 5.323 yn cyflwyno meini prawf newydd a ddylai fod yn y polisi?

   c. Sut fyddai'r polisi'n gweithredu ochr yn ochr â pholisïau GN 29 a GN 32?

24. Polisi GN 58

   a. Beth yw cydbwysedd priodol o ddefnyddiau yn yr ail baragraff? A fyddai hyn yn berthnasol i leoliadau o fewn aneddiadau a chefn gwlad agored?

   b. Pam mae pentrefi lleol wedi'u heithrio o'r polisi? A yw'n gyson â hierarchaeth aneddiadau ac egwyddorion cynaliadwyedd?

**Mater 6: Trafnidiaeth, ynni, mwynau a gwastraff**

**Y Mater: A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli trafnidiaeth, ynni a mwynau, a gwastraff sydd â sail gadarn, wedi'i gyfiawnhau, ac yn gyson â gofynion polisïau cenedlaethol?**

**Trafnidiaeth**

1. A yw polisïau Cynllunio Gofodol 20 (SP 20) a Nodyn Cyfarwyddyd 36 (GN 36) yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer integreiddio a chydlynu mesurau trafnidiaeth cynaliadwy a gwaith cynllunio defnydd tir?

2. A yw'r Cynllun yn manteisio ar gyfleoedd i weithredu llwybrau teithio llesol a gynlluniwyd?

3. Sut fydd y ddarpariaeth o ran meysydd parcio ar gyfer cerbydau a beiciau yn cael ei rheoli drwy'r Cynllun?

**Ynni**

4. A yw sylfaen dystiolaeth y Cynllun yn darparu sail gadarn i lywio datblygiad polisïau ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan ystyried polisïau cynllunio cenedlaethol?

5. Polisi GN 4

   a. A yw amcanion Polisi GN 4 i leihau'r galw am adnoddau, gwella effeithlonrwydd, ac optimeiddio'r defnydd o ynni yn gyson â pharagraffau 5.8.4 i 5.8.5 o Bolisi Cynllunio Cymru?

   b. A yw amcanion y polisi yn ddigon clir ac effeithiol?

    c. A yw'r cyfiawnhad rhesymegol ym mharagraffau 5.38 i 5.42 yn berthnasol i'r polisi?

6. Polisi GN 5
    a. A yw'r dyraniadau ym Mholisi GN 5 wedi ystyried cyfyngiadau safle yn briodol, gan gynnwys y tir amaethyddol a'r mawn gorau a mwyaf amlbwrpas?
    b. A yw hectarau safleoedd yn adlewyrchu hyn?
    c. A oes unrhyw wrthdaro rhwng dyraniadau solar a dyraniadau preswyl cyfagos?
    d. Sut mae'r targed blynyddol o 9 MW wedi'i lywio gan dybiaethau sy'n ymwneud â chapasiti gosodedig posibl ar safleoedd a nodwyd a Maes Awyr Breudeth? A ddylai'r targed fod yn fwy uchelgeisiol?
7. Polisi GN 6
    a. A yw'r dyraniadau wedi dilyn proses asesu safleoedd gadarn?
    b. A yw'r cyfeiriad at "bolisïau lleol" ym Mholisi GN 6 yn ddigon clir?
    c. A ddylai'r polisi ddarparu cefnogaeth i gynigion ynni adnewyddadwy priodol, yn unol â Chymru'r Dyfodol?

**Mwynau a gwastraff**

8. A yw polisïau SP 18, GN 37, GN 38, GN 39 a GN 40 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli adnoddau mwynau yn Sir Benfro, ac a ydynt yn gyson â pholisïau cynllunio cenedlaethol?
    a. Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y Datganiad o Gydweithio Is-ranbarthol ar fwynau ar gyfer rhanbarth gorllewin Cymru (SD52.2)? Beth yw'r goblygiadau o ran y Cynllun?
    b. A yw'r dyraniad tywod a graean (estyniad Chwarel Trefigin MN/000/LDP2/001) yn gyfiawn, yn gymesur, ac a ellir ei gyflawni?
    c. A yw'r ardaloedd lle y chwilir am dywod a graean o dan Bolisi GN 37 wedi'u cyfiawnhau?
    d. A yw'r ardaloedd mwynau sydd wedi'u diogelu ym Mholisi GN 38 wedi'u cyfiawnhau? A yw'r ardaloedd hyn yn cynnwys seilwaith sy'n gysylltiedig â mwynau (Polisi Cynllunio Cymru 5.14.7)?
    e. A yw ystyr 'datblygiad sensitif' yn glir ym Mholisi GN 38?
    f. A yw Polisi GN 40 yn darparu eglurder ynghylch ei gwmpas? A ddylai gynnwys rhestr o safleoedd mwynau perthnasol a ddangosir ar y Map Cynigion?
9. A yw polisïau SP 21, GN 59 a GN 60 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli gwastraff cynaliadwy yn Sir Benfro, ac a ydynt yn gyson â pholisïau cynllunio cenedlaethol?
    a. Sut mae'r safleoedd a restrir ym Mholisi GN 59 wedi cael eu nodi? A ddylid eu hychwanegu at y Map Cynigion?

**Mater 7: Polisïau rheoli datblygu**

**Y Mater: A yw polisïau'r Cynllun ar gyfer rheoli'r amgylchedd adeiledig, hanesyddol a naturiol, datblygu cefn gwlad a darparu seilwaith wedi'u seilio'n gadarn ac yn gyfiawn ar bolisi cynllunio cenedlaethol ac yn gyson â'r polisi hwn?**

**Polisïau rheoli datblygu**

1. Polisi GN 1:
    a. A yw maen prawf 1 yn glir ac yn fanwl gywir?
    b. A ddylai maen prawf 1 hefyd gyfeirio at effeithiau ar "edrychiad" yn ogystal â chymeriad? A ddylai gyfeirio at "ddefnyddio"? A oes angen cyfeirio at "leoliad" ddwywaith?
    c. A yw'r cyfeiriad at "amwynder lleol" ym meini prawf 2A a 2B yn glir ac yn gymesur? A ddylai gyfeirio at "amwynder preswyl" yn unig?
    d. A yw maen prawf 6 yn glir ac yn fanwl gywir ynghylch osgoi effeithio'n andwyol ar ddiogelwch defnyddwyr priffyrdd?
    e. A oes angen cyfeirio at "(effaith niweidiol na ellir ei lliniaru'n foddhaol)"?
    f. Sut fyddai maen prawf 10 yn cael ei gymhwyso? A yw'n ailadrodd meini prawf 2A a 2B?
    g. A yw maen prawf 12 yn dyblygu rheolaethau lletem las? A ddylid cyfeirio at niwed?
2. Sut fydd y Cynllun yn cymhwyso egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy sydd wedi'u cynnwys ym mholisi GN 2?
    a. A yw maen prawf 2 yn dyblygu darpariaethau ym mholisi GN1, maen prawf 1?
    b. A yw'r egwyddorion economi gylchol yn maen prawf 2 wedi'u cyfiawnhau?
    c. A yw maen prawf 9 yn glir ynghylch y safonau sy'n cael eu cymhwyso ar gyfer mannau gwefru cerbydau allyriadau isel iawn?
3. Sut mae polisïau cyffredinol a dylunio'r Cynllun yn ystyried mynediad, cynhwysiant ac anghenion gwahanol grwpiau defnyddwyr mewn cynigion datblygu?
4. A yw geiriad polisi GN 28 yn gyson â dyletswyddau statudol a pholisi cenedlaethol perthnasol yn ymwneud â threftadaeth?
    a. A yw'r polisi'n unigryw yn lleol neu a yw'n dyblygu polisi cynllunio cenedlaethol?
    b. Mae paragraff 5.155 yn cyfeirio at gofrestr bosibl o asedau hanesyddol o bwysigrwydd lleol arbennig. A fyddai polisi GN 28 yn darparu lefel briodol o ddiogelwch i asedau o'r fath?
5. Polisi GN 48:

    a. A yw'r dynodiadau lletem las yn angenrheidiol ac yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol?
    b. A yw'r asesiad tystiolaeth lletem las (SD48 ac ED14) yn darparu sail gadarn a chredadwy ar gyfer nodi a diffinio cwmpas pob dynodiad?
    c. Gan ystyried bod y fframwaith polisi yn cyfyngu ar ddatblygiad yng nghefn gwlad, beth yw eu cyfiawnhad dros ganiatáu datblygiad y tu hwnt i gwmpas y fframwaith?
6. A yw polisi GN 49 yn darparu mecanwaith priodol ar gyfer rheoli effaith datblygiad ar nodweddion a rhinweddau tirweddau Sir Benfro?
    a. A yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?

**Cefn gwlad**

7. A yw polisi GN 14 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer asesu cynigion ar gyfer anheddau newydd yng nghefn gwlad?
    a. A yw maen prawf 2 yn glir yn ei amcanion, gan gynnwys adeilad o gymeriad brodorol lleol?
8. A yw polisi GN 33 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer asesu cynigion arallgyfeirio ffermydd?
    a. A yw'n gyson â pholisïau eraill y Cynllun ar fanwerthu a llety ymwelwyr?
9. A yw gofynion polisi GN 34 ynghylch defnyddio adeiladau traddodiadol yng nghefn gwlad yn briodol ac yn gyson â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol?
    a. O ystyried teitl a chwmpas y polisi, a ddylai maen prawf 2a hefyd fod yn berthnasol i gynigion cyflogaeth?
    b. Sut mae diffinio 'addasu, ehangu neu ailadeiladu sylweddol'?

**Seilwaith**

10. A yw tystiolaeth y cyngor yn ddigon clir a chadarn wrth nodi'r seilwaith sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun?
    a. A yw'r Atodiad Gweithredu (ED10d) yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r gofyniad yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu i baratoi Cynllun Seilwaith?
    b. A yw ei ofynion wedi'u cynnwys yn y dystiolaeth hyfywedd gysylltiedig i gefnogi cyflawni'r Cynllun?
    c. A oes digon o sicrwydd y gellir darparu seilwaith yn unol â'r amserlenni disgwyliedig ar gyfer darparu safleoedd, gan gynnwys trywydd y llwybr tai?
11. A yw polisi GN 3 yn darparu mecanwaith clir a phriodol ar gyfer diogelu seilwaith newydd rhag datblygiad?
    a. A yw'r polisi'n glir ynghylch sut a phryd y bydd rhwymedigaethau cynllunio'n cael eu sicrhau?

b. A yw'r gofyniad am fand eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabit yn dyblygu rheolaethau mewn rheoliadau adeiladu?

c. A yw'n briodol nodi hyn fel ail flaenoriaeth?

d. A ddylai'r cyfeiriad at gysylltiadau prif gyflenwad trydan ym mharagraff 5.32 fod yn y polisi?

e. A ddylid ychwanegu seilwaith y Gymraeg at y polisi, o ystyried paragraff 4.132?

12. Polisi GN 27

    a. Sut fyddai'r paragraff cyntaf yn cael ei weithredu?

    b. A yw'r ail baragraff yn dyblygu rheolaethau mewn rheoliadau adeiladu?

    c. Yn y trydydd paragraff, beth sy'n digwydd os yw ymgeisydd yn methu cael ymateb gan ddarparwyr?

**Yr amgylchedd naturiol**

13. A yw polisi SP 12 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol?

    a. A yw'n gyson â pholisi cenedlaethol, gan gynnwys paragraffau 6.4.15 a 6.4.25 Polisi Cynllunio Cymru?

    b. A yw'n glir, yn fanwl gywir ac yn gallu cael ei weithredu'n gyson?

    c. A yw'n gyson â pholisi GN 41?

14. A yw polisi GN 41 yn unigryw yn lleol neu a yw'n dyblygu darpariaethau polisi cynllunio cenedlaethol?

    a. A yw'n ddigon clir sut y byddai polisi GN 41 yn cael ei gymhwyso i ddatblygiad y tu allan i ffiniau safleoedd gwarchodedig?

    b. A yw'r polisi'n glir yn ei derminoleg, gan gynnwys safleoedd o bwysigrwydd Ewropeaidd?

15. A yw polisi GN 42 yn gyson â'r dull cam wrth gam mewn polisi cynllunio cenedlaethol?

    a. A yw'r cyfeiriad yn y paragraff olaf ym mholisi GN 42 yn ddigon hyblyg?

16. A yw polisi GN 43 yn gyson â pharagraff 6.4.42 o Bolisi Cynllunio Cymru?

17. A yw darpariaethau polisïau GN 44 a GN 45 wedi'u mynegi'n glir ac yn gyson â pholisi cenedlaethol?

18. A ellir cyfiawnhau dileu polisi GN 46, o ystyried Nodyn Cyngor Technegol 15?

**Mater 8: Dyraniadau safle: Barics Cawdor a chanolfannau trefol**

**Y Mater: A yw'r safleoedd a neilltuwyd wedi'u seilio ar sail dystiolaeth gadarn ac yn gallu cyflawni datblygiadau preswyl newydd dros gyfnod y Cynllun?**

<u>GN 7 Barics Cawdor gan gynnwys hen Faes Awyr Breudeth</u>

1. Beth yw'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle, ac a yw'r cyfyngiadau hyn yn rhwystrau sylweddol i ddatblygiad o fewn cyfnod y Cynllun?
2. Wrth ystyried y cyfyngiadau, a chan gyfeirio at ddarpariaethau polisi ar gyfer seilwaith gan gynnwys tai fforddiadwy a rhwymedigaethau cynllunio, a yw'r dyraniad yn hyfyw yn economaidd?
3. A yw'r dystiolaeth yn rhoi digon o sicrwydd ynghylch graddfa a math y datblygiad a ddisgwylir gwneud cynnig am gais cynllunio ar ei gyfer?
4. A yw'r dystiolaeth yn rhoi digon o sicrwydd ynghylch cyflawni'r safle yn ystod cyfnod y Cynllun?
5. Beth yw'r mecanweithiau a'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r safle?
6. A yw dyraniad y safle yn hanfodol i sicrhau cadernid y Cynllun?
7. A fyddai'n fwy priodol ystyried y safle drwy ddull uwchgynllun fel canllawiau cynllunio atodol?

<u>GN 18 Lôn Slade, Hwlffordd (S/HSG/040/LDP2/6)</u>

<u>GN 19A Maesgwyn, Abergwaun (S/HSG/034F/LDP2/1)</u>

<u>GN 19B Pwynt i'r De o Conway Drive, Steynton (S/HSG/086/LDP2/3)</u>

1. A yw polisi'r safle wedi'i ategu gan dystiolaeth fanwl i gefnogi ei gyflawniad, gan gynnwys Datganiad Tir Cyffredin (Datganiadau Tir Cyffredin)? (DPM Tabl 18)
2. Beth yw'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle, ac a yw'r cyfyngiadau hyn yn rhwystrau sylweddol i ddatblygiad o fewn cyfnod y Cynllun?
3. Wrth ystyried y cyfyngiadau, a chan gyfeirio at ddarpariaethau polisi ar gyfer seilwaith gan gynnwys tai fforddiadwy a rhwymedigaethau cynllunio, a yw'r dyraniad yn hyfyw yn economaidd?
4. Gan gyfeirio at dystiolaeth safle-benodol a pholisïau perthnasol ar gyfer seilwaith ar y safle a materion sy'n gysylltiedig â dylunio, a yw nifer yr anheddau arfaethedig yn realistig ac yn gyflawnadwy dros gyfnod y Cynllun?

5. Beth yw'r mecanweithiau a'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r safle?
6. A yw dyraniad y safle yn hanfodol i sicrhau cadernid y Cynllun?
7. A yw'r polisi'n cynnwys yr holl ofynion hanfodol i gyflawni'r safle?
8. A yw'r polisi'n cynnwys digon o fanylion creu lleoedd ac uwchgynllunio?

<u>HSG/086/LDP2/1 (Tir yn Myrtle Meadows, Steynton)</u>

<u>HSG/095/LDP2/1 (Tir rhwng St Daniel's Hill a Norgans Hill, Penfro)</u>

<u>HSG/095/LDP2/2 a HSG/095/LDP2/5 (Tir i'r de-orllewin/dwyrain o Southlands, St Daniel's Hill, Penfro)</u>

<u>HSG/088/LDP2/1 (Tir i'r gorllewin o Bloomfield Gardens ac i'r gogledd o Adams Drive a Highfield Park, Arberth)</u>

<u>HSG/093/00066 (Tir i'r dwyrain o Poppy Drive, Neyland)</u>

1. Beth yw'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle, ac a yw'r cyfyngiadau hyn yn rhwystrau sylweddol i ddatblygiad o fewn cyfnod y Cynllun?
2. Wrth ystyried y cyfyngiadau, a chan gyfeirio at ddarpariaethau polisi ar gyfer seilwaith gan gynnwys tai fforddiadwy a rhwymedigaethau cynllunio, a yw'r dyraniad yn hyfyw yn economaidd?
3. Gan gyfeirio at dystiolaeth safle-benodol a pholisïau perthnasol ar gyfer seilwaith ar y safle a materion sy'n gysylltiedig â dylunio, a yw nifer yr anheddau arfaethedig yn realistig ac yn gyflawnadwy dros gyfnod y Cynllun?
4. Beth yw'r mecanweithiau a'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r safle?
5. A yw dyraniad y safle yn hanfodol i sicrhau cadernid y Cynllun?

**Mater 9: Dyraniadau safle: Canolfannau gwasanaethu a phentrefi gwasanaeth**

**Y Mater: A yw'r safleoedd a neilltuwyd wedi'u seilio ar sail dystiolaeth gadarn ac yn gallu cyflawni datblygiadau preswyl newydd dros gyfnod y Cynllun?**

<u>HSG/020/LDP2/1 (Tir yng Nghaeau Tan Ffynnon, Cilgerran)</u>

<u>HSG/048/00038 (Tir i'r gogledd o Hayston View, Johnston)</u>

<u>HSG/050/LDP2/1 (Tir i'r de o Rock Park, Cilgeti)</u>

<u>HSG/052/00011 (Tir i'r de o Cleggars Park, Llandyfái)</u>

HSG/052/LDP2/1 (Tir wrth ymyl Ysgol Llandyfái, Llandyfái)

HSG/003/LDP2/01 (Tir i'r gogledd o Fferm Begeli)

HSG/152/LDP2/1 (Tir i'r de o Fro'r Dderwen, Clunderwen)

HSG/043/LDP2/1 (Tir gerllaw Brackenhurst, Hill Mountain)

HSG/047/LDP2/1 (Tir i'r de o'r Crown, Jeffreyston)

HSG/066/LDP2/1 (Tir i'r dwyrain o Hazelbank, Llanstadwel)

HSG/132/LDP2/1 (Tir i'r gorllewin o fferm Kings Park, Tredemel)

1. Beth yw'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle, ac a yw'r cyfyngiadau hyn yn rhwystrau sylweddol i ddatblygiad o fewn cyfnod y Cynllun?
2. Wrth ystyried y cyfyngiadau, a chan gyfeirio at ddarpariaethau polisi ar gyfer seilwaith gan gynnwys tai fforddiadwy a rhwymedigaethau cynllunio, a yw'r dyraniad yn hyfyw yn economaidd?
3. Gan gyfeirio at dystiolaeth safle-benodol a pholisïau perthnasol ar gyfer seilwaith ar y safle a materion sy'n gysylltiedig â dylunio, a yw nifer yr anheddau arfaethedig yn realistig ac yn gyflawnadwy dros gyfnod y Cynllun?
4. Beth yw'r mecanweithiau a'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r safle?
5. A yw dyraniad y safle yn hanfodol i sicrhau cadernid y Cynllun?